



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

CYNLLUN BUSNES

2025-29

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Gweledigaeth a Gwerthoedd	4
3. Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu	5
4. Cynlluniau Gweithredu	12
5. Perfformiad SCHTh	23
6. ATODIAD 1 Cylch Cynllunio a Monitro Busnes a Llinell Amser.....	24

1. Cyflwyniad

Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (y Comisiynydd) ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi cynllun sy'n nodi ei flaenoriaethau heddlu a throseddu. Mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-29 yn nodi blaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer ardal Dyfed-Powys.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn nodi'n fanylach sut y bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu am gyfnod y Cynllun Heddlu a Throseddu.

. Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gomisiynwyr a'u Prif Weithredwyr lunio Cynllun Busnes, ond mae gwneud hynny'n cynrychioli arfer gorau, yn tanategu llywodraethu da a thryloywder, ac yn nodi'r gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir gan y Comisiynydd (a'r sefydliad sy'n eu cefnogi), ar gyfer budd y cyhoedd. Fe'i bwriedir yn bennaf fel dogfen fewnol ac mae'n arf gweithredol i alluogi cynllunio a chyflawni. Bydd yn ddogfen "fyw" ac mae newidiadau i'w disgwyl dros y flwyddyn. Os bydd angen darnau sylweddol newydd o waith drwy gydol cyfnod y cynllun hwn, bydd Tîm Gweithredol SCHTh yn ystyried a ddylent ddisodli prosiectau cyfredol.

Bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am y Cynllun Busnes a bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy Dîm Gweithredol SCHTh. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio gan staff SCHTh i sicrhau bod eu gwaith yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion strategol, gan y Comisiynydd i ddwyn SCHTh i gyfrif, a chan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i gefnogi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o waith SCHTh a sut mae'n cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Amlinellir y cylch cynllunio busnes a'r amserlen yn Atodiad 1. Ni fydd y Cynllun Busnes yn rhoi manylion llawn am weithgareddau a ystyrir yn fusnes fel arfer. O'r herwydd, nid yw'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gweithgarwch a fydd yn cael ei wneud gan SCHTh. Bwriad y ddogfen hon yw amlinellu meysydd gwaith yr ydym am eu blaenoriaethu a'u hysgogi.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cofnodi perfformiad yn erbyn yr amcanion a amlinellir yn y Cynllun Busnes hwn ynghyd ag adlewyrchiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu yn ehangach.

Mae SCHTh yn gweithio o fewn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Cod Moeseg, Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn rhoi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

2. Gweledigaeth a Gwerthoedd

Gweledigaeth: Gwella Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona Lleol

Fel y nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029, y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y Comisiynydd yw gwella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'n system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth heddlu a system gyfiawnder sy'n sicrhau bod pobl:

- Yn cael eu gwarchod - rydym yn amddiffyn pobl rhag trosedd, ac yn ceisio cyfiawnder i ddioddefwyr.
- Yn cael eu parchu - rydym yn cael ein hystyried yn deg, yn barchus ac yn ddiduedd ym mhopeth a ddywedwn ac a wnawn.
- Yn cymryd rhan - rydym yn cefnogi pobl o bob cefndir i gyfrannu at sut rydym yn gweithio.
- Yn cael eu cynrychioli - rydym yn cynrychioli'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn annog hyder yn ein swyddogion, staff a gwirfoddolwyr.

Y Blaenoriaethau ar gyfer Plismona a Throseddu

Er mwyn cyflawni gweledigaeth “Gwella Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona Lleol”, anogir yr heddlu a holl sefydliadau eraill y system cyfiawnder troseddol yn cael eu hannog i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r comisiynydd ar gyfer plismona a throseddu:

- **Cefnogi Dioddefwyr ac Atal Erledigaeth.** Sicrhau bod pob dioddefwr yn cael ei gydnabod, ei ddiogelu, ei gefnogi, a'i fod yn cael gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i'w anghenion unigol.
- **Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed.** Atal niwed i unigolion a chymunedau a achosir gan droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed drwy fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed.
- **Cefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol.** Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan ein cymunedau, drwy ddylanwadu ac eirioli dros newid a gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion.

3. Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ein Datganiad Cenhadaeth yw 'Cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i gyflawni canlyniadau effeithiol i'r cyhoedd'. Un o brif swyddogaethau SCHTh yw sicrhau bod y Comisiynydd yn arfer ei bwerau yn briodol ac yn gyfrifol. Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn sefydlu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd o fewn pob ardal Heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfrifoldeb iddynt am blismona cyfan o fewn eu hardal. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawniad gweithredol plismona, gan gynnwys y Gofyniad Plismona Strategol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Mae Adran 70 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas bedair rhan, sef y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throsedd a'r Ysgrifennydd Cartref.

Mae sefydlu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gan y partïon hyn yn hanfodol. Disgwylir y bydd egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth yn sail i'r berthynas rhyngddynt a bydd pob parti yn gwneud eu gorau glas i wneud i'r berthynas weithio.

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2023, mae SCHTh wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan y Comisiynydd bŵer a dyletswydd gyfreithiol drostynt. Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i gyhoeddi bob chwarter, gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd sy'n dwyn y Comisiynydd i gyfrif mewn perthynas â chynnydd.

Ymhellach, fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rôl SCHTh yw cefnogi'r Comisiynydd i ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Dyma'r egwyddorion arweiniol ar gyfer cyflwyno Cynllun Heddlu a Throsedd tosturiol a chynhwysol:

1. Gweithio mewn Partneriaeth – gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chymunedau i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl, gan wella eu profiad a'u canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar ymdrechion a rennir ar gyfer Plismona yng Nghymru:
 - Weithio tuag at Gymru wrth-hiliol
 - Roi llais i gymunedau
 - Sicrhau gwerth am arian

- Weithio gyda'n gilydd i gyflawni Cymru Heb Drais
 - Weithio tuag at gyflawni Cymru sy'n ystyriol o drawma
2. Llywodraethu ac atebolrwydd – bod yn dryloyw ac yn atebol i bobl sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.
 3. Cynaliadwyedd – ddefnyddio tair conglfaen cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol), fy nod yw adeiladu llwyfan cadarn y gall Heddlu Dyfed-Powys ei ddefnyddio i ddarparu ei wasanaethau.
 4. Ymgysylltu a bod yn llais y gymuned – cynnwys pobl sy'n byw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys mewn penderfyniadau sy'n bwysig iddyn nhw.
 5. Dull wedi'i deilwra, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – deall pwysigrwydd teilwra ein gwaith, a'r gwasanaethau rydym yn eu comisiynu, i brofiadau ac anghenion unigryw unigolion.

Er mwyn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau, mae'n hollbwysig sicrhau bod tîm SCHTh yn effeithiol, yn ddeinamig ac yn hyblyg. Mae hyn yn golygu sicrhau bod tîm SCHTh yn cael ei arwain a'i reoli'n effeithiol gyda'r diwylliant, adnoddau a systemau sefydliadol priodol ar waith.

Cefnogir y Comisiynydd gan dîm o weithwyr proffesiynol y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol. Maent yn cynghori'r Comisiynydd ar feysydd megis cyllid, llywodraethu, polisi, perfformiad a chraffu, ymgysylltu â'r cyhoedd, comisiynu, a phartneriaethau, ac yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Mae'r unigolion hyn mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol ac nid ydynt yn cefnogi unrhyw ran o waith gwleidyddol y Comisiynydd.

Strwythur SCHTh

Yn ogystal â swyddogaethau statudol y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, mae SCHTh wedi'i strwythuro i bum prif swyddogaeth, sef fel a ganlyn:

Comisiynu a Phartneriaethau

Mae'r gwaith Comisiynu a Phartneriaethau yn cynnwys y canlynol:

1. Goruchwylio asesiadau anghenion priodol er mwyn nodi bylchau a meysydd y mae angen eu gwella yn narpariaeth y gwasanaeth.

2. Comisiynu a rheoli cytundebau gwasanaethau i helpu dioddefwyr i ymdopi ac ymadfer o effaith trosedd ac i gefnogi'r gwaith o leihau aildroseddu a niwed ymysg troseddwyr yn ardal Dyfed-Powys.
3. Rheoli ymrwymadau partneriaeth SCHTh, gan gynnwys dyletswydd gilyddol y CHTh i weithio gyda phartneriaid i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
4. Asesu, dyfarnu a rheoli arian sydd ar gael i'r Comisiynydd i alluogi partneriaid i gyflawni prosiectau sy'n helpu i fodloni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.
5. Goruchwyllo'r dasg o fynd ar drywydd cyfleoedd grantiau a chyllid allanol i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, rheoli prosiectau ar gyfer cynigion llwyddiannus i sicrhau bod y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn cael ei ddilyn.
6. Cefnogi'r Comisiynydd yn ei waith gyda phartneriaid i sicrhau system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon, ynghyd â chraffu ar ganlyniadau a gyflawnir o dan y Cod Ymarfer Dioddefwyr.

Sicrwydd a Chraffu

Mae'r gwaith sicrwydd a chraffu yn cynnwys y canlynol:

1. Datblygu a chynnal dealltwriaeth o'r prif faterion sy'n effeithio ar blismona, diogelwch cymunedol a'r system cyfiawnder troseddol yn lleol ac yn genedlaethol.
2. Mae dadansoddi'r Heddlu a SCHTh yn peri risg o ddatblygu gweithgarwch craffu gwybodus.
3. Cynnal a sicrhau rheolaeth effeithiol o bob cynllun a gweithgaredd gwirfoddolwyr.
4. Cyflwyno canfyddiadau gweithgarwch craffu ar gyfer y Comisiynydd, y Prif Weithredwr a'r Panel Heddlu a Throseddu.
5. Trin a rheoli adolygiadau cwynion a dderbyniwyd gan y cyhoedd a chyrff proffesiynol yn effeithiol mewn modd amserol.
6. Darparu cyngor a chymorth i'r Comisiynydd ar weithdrefnau lled-gyfreithiol; gan gynnwys rheoli proses Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu.
7. Penodi Aelodau Panel Annibynnol a rhywun sydd â chymhwyster yn y gyfraith ar gyfer Gwrandawiadau Camymddygiad yr Heddlu.
8. Goruchwyllo'r ffordd y mae'r heddlu'n trin cwynion.

Strategaeth a Pholisi

Mae'r gwaith strategaeth a pholisi yn cynnwys y canlynol:

1. Datblygu, monitro a gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throsedd.
2. Arwain ar feysydd polisi penodol i ddylunio, datblygu a chynnig camau gweithredu priodol i helpu i gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd.
3. Sganio a dadansoddi amgylcheddol.
4. Adolygiadau'r Pwyllgor Dethol a gwaith prosiect i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd.
5. Dylanwadu ar bolisi a gweithgarwch lloio.
6. Sicrhau bod y Comisiynydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i ymateb i bob adroddiad a gyhoeddir gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.
7. Cefnogi'r gwaith o ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn plismona gweithredol o ddydd i ddydd.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae'r gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu yn cynnwys y canlynol:

1. Ymgysylltu â phobl ifanc trwy ein Cynllun Llysgenhadon Ifainc.
2. Sicrhau bod gan ddioddefwyr lais trwy ein Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr a Goroeswyr a'r Rhwydwaith Eiriolwyr Dioddefwyr a Goroeswyr.
3. Trefnu a mynychu digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus.
4. Paratoi cyfathrebiadau (e.e. datganiadau i'r wasg a bwletinau) a'u rhannu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol.
5. Datblygu, dylunio a chyhoeddi cyhoeddiadau (e.e. adroddiad blynyddol a deunydd hyrwyddo).
6. Rheoli llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
7. Cefnogi a datblygu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth lleol a chenedlaethol.
8. Ymgynghoriadau cyhoeddus.
9. Sicrhau bod cynnwys y wefan yn cael ei ddiweddarau gyda newyddion, digwyddiadau a gweithgareddau allweddol.
10. Datblygu a gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cymorth Busnes

Mae'r gweithgarwch cymorth busnes yn cynnwys:

1. Galluogi llywodraethu effeithiol drwy sicrhau bod trefniadau priodol ar waith, gan gynnwys gweinyddu'r Bwrdd Plismona, Bwrdd Perfformiad Strategol, Pwyllgorau Dethol a'r Cyd-bwyllgor Archwilio.
2. Monitro perfformiad mewn perthynas â chydymffurfiaeth SCHTh â chyfrifoldebau statudol trwy baratoi Adroddiadau Protocol Plismona i'w hystyried gan y Panel Heddlu a Throseddau.
3. Rheoli Risg a Pharhad Busnes.
4. Arwain materion cydymffurfiaeth, gan gynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau am fynediad at ddata gan y testun a Safonau'r Gymraeg.
5. Y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyfathrebu â'r Swyddfa drwy'r post, e-bost a ffôn.
6. Bwrw ymlaen â gwerth y Comisiynydd – Bod yn Gynaliadwy.
7. Rheoli Cyllideb y Swyddfa a monitro treuliau'r Comisiynydd.

Cyllideb ar gyfer 2025-2026


Daw'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gan y Llywodraeth Ganolog a'r praesept. Yr wybodaeth am y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw:

Costau Swyddfa CHTh	£1,627,702
Comisiynu'r CHTh	£3,047,982
Incwm CHTh	- £1,386,218

Mae hyn yn rhoi cyllideb net o £3,289,466 i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau.

Strwythur SCHTh

Manylir ar sefydliad SCHTh isod. Fel sy'n wir ar 1 Ebrill 2025, mae 23 o unigolion yn y swyddfa gan gynnwys y Comisiynydd ac mae'r strwythur wedi'i nodi isod ynghyd â demograffeg y tîm.



(g) = Gwag

(DD) = Dros Dro

Demograffeg tîm

Fel sy'n wir ar 1 Ebrill 2025

Cyfanswm y Staff: 23

Rhyw (Gwryw): 6

Rhyw (Benyw): 17

Aelodau o staff ag anabledd: 0

Aelodau staff o gefndir ethnig lleiafrifol: 1

4. Cynlluniau Gweithredu

Y Cynllun Gweithredu yw'r allwedd i sicrhau bod y Cynllun Busnes hwn yn ddogfen “fyw” sy'n rhoi cyfeiriad ac eglurder i Dîm SCHTh ar y gwaith sydd i'w wneud. Mae'n darparu'r “edau aur” rhwng y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, dyletswyddau statudol y Comisiynydd a'r gwaith sydd ei angen i alluogi'r tîm i redeg y tîm yn effeithlon ac yn effeithiol. O'r Cynllun hwn, bydd pob maes busnes yn datblygu ei gynllun gwaith ei hun gan nodi manylion pellach am sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a amlinellir isod, a fydd yn ei dro yn bwydo i mewn i amcanion unigol pob aelod o staff. Yn y modd hwn, gallwn fod yn sicr bod ein holl weithgarwch yn cyd-fynd â phrif swyddogaethau'r Comisiynydd ac yn cyfrannu at eu cyflawni a bod pob aelod o staff yn glir yn eu cyfraniad at gyflawniadau llwyddiannus SCHTh.

1. Plant a Phobl Ifanc

Children and Young People	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Y Pwyllgor Dethol Cynnal pwyllgor dethol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, lle bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn dwyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid i gyfrif yn gyhoeddus drwy graffu ar dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir gan randdeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		
Gwasanaeth Ymyrraeth, Atal ac Ymgysylltu Cefnogi gwaith Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau dull cyson a chosteffeithiol o wasanaethau Ymyrraeth, Atal ac Ymgysylltu (gan gynnwys Cyswllt Ysgolion) ar gyfer plant.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		
Plant yn y ddalfa Monitro nifer a gofal plant yn y ddalfa a pharhau i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru i wella llety diogel i blant. Ceisio darparu cymorth cofleidiol i blant sy'n mynd i'r ddalfa.	Pennaeth Sicrwydd / Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		
Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod pobl ifanc yn cael llwyfan i leisio eu barn a'u profiadau a'u bod yn cael gwybod am waith y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	✓			
Ffocws ymchwil Cefnogi ymchwil i ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau ar gyfer plant a phobl ifanc a chefnogi Heddlu Dyfed-Powys i ymgorffori dysgu o unrhyw argymhellion sy'n deillio o hyn.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		

2. Data a defnyddio ymchwil

Data and the use of Research	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw Parhau i lywio gweithgarwch Cymru gyfan i gyflawni'r gwaith o rannu data'r heddlu yn rheolaidd i gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		
Agenda ymchwil strategol Cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o ymchwil ac asesu effeithiolrwydd y rhaglen beilot gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓			
Mesur ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd Sefydlu a lansio mecanwaith o fesur ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona lleol yn ardal Dyfed Powys er mwyn sicrhau bod data'n cael eu casglu'n chwarterol / flynyddol.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	✓			
Cod ymarfer i ddioddefwyr Monitro metrigau'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr drwy Fframwaith Perfformiad Cynllun yr Heddlu a Throseddu a strwythurau llywodraethu ategol.	Pennaeth Sicrwydd		✓		
Fframwaith perfformiad Gweithredu fframwaith perfformiad cynhwysfawr i fesur cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu a fydd yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Strategol chwarterol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓			
Cyfathrebu perfformiad Gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu cynhyrchion i hysbysu'r cyhoedd am sut rydym yn perfformio yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi / Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu		✓		

Data and the use of Research	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Trefniadau partneriaeth a chyllido allanol Adolygu'r trefniadau partneriaeth a chyllido allanol i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer ymdrechion a ariennir ar y cyd.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓	✓	✓
Effeithiolrwydd gwasanaethau Defnyddio'r amrywiol ddulliau craffu o fewn strwythur llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a gwerth y ddarpariaeth gan wasanaethau a gomisiynwyd ac a ariennir gan grantiau.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau / Pennaeth Sicrwydd	✓	✓		
Cynaliadwyedd Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu ac ymgorffori diwylliant cynaliadwyedd o fewn yr heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt o fewn Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Heddlu Dyfed-Powys.	Prif Weithredwr	✓	✓		

3. Cydweithio

Collaboration	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Gwasanaethau Atal a Thrin Camddefnyddio Sylweddau Gweithio gyda chydweithwyr byrddau cynllunio ardal i adolygu'r buddsoddiad sydd ei angen mewn gwasanaethau atal a thrin camddefnyddio sylweddau, i ddiwygio manyleb y gwasanaeth i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn cael eu hadnabod a'u cefnogi'n briodol ac i werthuso'r canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau a gomisiynwyd ar y cyd.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓		
Strategaeth Cyfathrebu Mewnol Datblygu a gweithredu strategaeth cyfathrebu mewnol i gynyddu ymwybyddiaeth o rôl a chyfrifoldebau Heddlu Dyfed-Powys a gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn benodol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau a gomisiynwyd yn fewnol ac yn allanol.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu / Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓			
Asesiad o anghenion dioddefwyr Adnewyddu'r asesiad o anghenion dioddefwyr, gan gynnwys ystyried plant a phobl ifanc a'r rhai â nodweddion gwarchodedig.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau		✓		
Menywod yn y system cyfiawnder troseddol Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cymorth i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau		✓	✓	
Gofal Cywir, Unigolyn Cywir Goruchwylio a monitro effaith cyflwyno'r dull Gofal Cywir, Unigolyn Cywir.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		

4. Diogelwch ar y ffyrdd

Road Safety	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Y Pwyllgor Dethol Cynnal pwyllgor dethol sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd, lle bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid i gyfrif yn gyhoeddus trwy graffu ar dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir gan randdeiliaid allweddol.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓	✓	
Lobïo diogelwch ar y ffyrdd Lobïo Llywodraeth Cymru a phartneriaid i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy gyflwyno trwyddedau graddedig ar gyfer gyrwyr newydd ac ailasesiadau ar gyfer gyrwyr hŷn.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		

5. Hyrwyddwr dioddefwyr lleol

Local Victims' Champion	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Prosiect Braenaru Monitro cyflawniad y prosiect Braenaru wrth wella profiad llysoedd teulu i ddioddefwyr a phlant.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓		
Yn ystyriol o drawma Gweithio tuag at sefydliadau sy'n ystyriol o drawma drwy wneud y canlynol: • Datblygu cynllun cyflawni sy'n ystyriol o drawma Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn dilyn y broses hunanasesu trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. • Monitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys drwy'r hunanasesiad sy'n ystyriol o drawma. • Sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw at y siarter ar gyfer teuluoedd sydd mewn profedigaeth oherwydd trasiedi gyhoeddus.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi / Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓	✓	✓
Rhwydwaith eiriolwyr Cyflwyno rhwydwaith eiriolwyr i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn llunio gwelliannau i wasanaethau.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	✓	✓	✓	✓
Cyfiawnder adferol Cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i gynnal adolygiad trylwyr o bryd a sut y cynigir cyfiawnder adferol i ddioddefwyr, gyda'r bwriad o ddeall effaith arferion adferol ar y rhai dan sylw.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		

6. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Equality, Diversity and Inclusion	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd Sicrhau cynnydd a chyflawniad yn erbyn amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd ar gyfer 2024–2029.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu / Pennaeth Sicrwydd	✓	✓	✓	✓
Sylwadau craffu Datblygu dulliau craffu amgen i ehangu sylwadau gan y paneli craffu.	Pennaeth Sicrwydd	✓	✓	✓	✓
Strategaeth ymgysylltu Sicrhau goruchwyliaeth o berfformiad yr heddlu yn unol â'i strategaeth ymgysylltu a gweithredu strategaeth ymgysylltu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	✓	✓	✓	✓

7. Troseddau gwledig

Rural Crime	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Y Pwyllgor Dethol Cynnal Pwyllgor Dethol sy'n canolbwyntio ar droseddau gwledig, lle bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid i gyfrif yn gyhoeddus trwy graffu ar dystiolaeth a gwybodaeth a ddarperir gan randdeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda chymunedau gwledig.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi		✓	✓	✓
Arolwg troseddau gwledig Cefnogi arolwg troseddau gwledig Prifysgol Aberystwyth a chefnogi Heddlu Dyfed-Powys i roi unrhyw argymhellion sy'n deillio ohono ar waith.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu / Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓			
Gweithgaredd atal Ceisio cefnogi Heddlu Dyfed-Powys i weithio gyda diwydiannau gwledig i sicrhau bod arferion gorau o ardaloedd eraill yn cael eu cymhwyso mewn perthynas â gweithgaredd atal troseddau gwledig.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi		✓	✓	

8. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

VAWDASV	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Rhaglen Gyflawnwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Parhau i ddatblygu'r rhaglen ranbarthol o gefnogaeth i gyflawnwyr troseddau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys gweithredu llwybr gwaredu y tu allan i'r llys CARA.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓			
Gwasanaethau ymosodiadau rhywiol Cymru Parhau i gydweithio â chydweithwyr plismona ac iechyd i gyflawni rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, gan sicrhau bod gwasanaethau'n addas at y diben ar gyfer cymunedau ac i ddiwallu anghenion Dyfed-Powys.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓	✓	
Gwerthuso Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig (DAVRU) Cefnogi'r gwaith o gynnal gwerthusiad academiaidd o'r uned hon yn Heddlu Dyfed-Powys a sicrhau bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn sbarduno gwelliannau pellach yn ymateb Heddlu Dyfed-Powys i ddioddefwyr.	Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓			

9. Troseddau cymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Neighbourhood Crime and ASB	Arweinydd	Amserlen			
		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Timau Plismona ac Atal Bro Monitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn Fframwaith Perfformiad Strategaeth y Timau Plismona ac Atal Bro newydd.	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu / Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓	✓	✓
Dyletswydd trais difrifol Sicrhau bod cyllid dyletswydd trais difrifol y Swyddfa Gartref yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi partneriaid yn y gwaith o atal a mynd i'r afael â thrais difrifol, gan gynnwys gwerthuso effaith a dadansoddi ymyriadau i lywio partneriaethau atal yn y dyfodol.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau	✓	✓		
Ymddygiad gwrthgymdeithasol Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i gyfrannu at flaenoriaeth Llywodraeth y DU i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, drwy wneud y canlynol: • Sicrhau bod cyllid gweithredu manau problemus y Swyddfa Gartref yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliannau mewn gwaith atal partneriaeth. • Gwella sut mae dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cefnogi. • Hwyluso defnydd gwell o'r adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol.	Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau / Pennaeth Strategaeth a Pholisi	✓	✓		


5. Perfformiad SCHTh

Byddwn yn adrodd ar ein hamcanion penodol, llinellau amser a chynnydd i'r Comisiynydd a'r Tîm Gweithredol bob chwarter. Bydd y Comisiynydd wedyn yn cyflwyno adroddiadau perfformiad i Banel yr Heddlu a Throseddu ac yn eu cyhoeddi. O ganlyniad, bydd cymunedau Dyfed-Powys yn gallu gweld y canlynol:

- Ein gweithgareddau a'n cyflawniadau
- Ein canlyniadau bwriadedig – wedi'u halinio i'r Cynllun Heddlu a Throseddu
- Ein perfformiad yn erbyn canlyniadau bwriadedig a pha mor llwyddiannus y buom.

Bydd yr wybodaeth gyffredinol am berfformiad yn rhan o Adroddiad Blynnyddol statudol y Comisiynydd i'r Panel a'r cyhoedd.

6. ATODIAD 1 Cylch Cynllunio a Monitro Busnes a Llinell Amser



Llinell Amser

